# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Llys y Tywysog**

**Llys-y-tywysog**
**Clos Pengelli, Pengelli**
**Abertawe**
**SA4 4JW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Llys y Tywysog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Barchester Healthcare Homes Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 54 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22.09.2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r holl adborth a gasglwyd gan y bobl, perthnasau, staff a gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld yn gadarnhaol iawn ynghylch y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl. Mae tîm o weithwyr gofal medrus sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio yn y cartref. Mae prosesau sicrhau ansawdd cadarn ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir a thîm rheoli ymroddedig. Mae rheolwr rhanbarthol a'r unigolyn cyfrifol yn craffu ar y gwasanaeth o safbwynt allanol ac yn rhoi cymorth. Mae'r prosesau cynllunio cymorth yn fanwl ac yn drylwyr. Mae'r lefelau staffio yn gyson â'r datganiad o ddiben ac yn cael eu haddasu pan fo angen mewn perthynas ag anghenion y bobl.

Caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n cyrraedd safon uchel. Mae gwaith adnewyddu pellach wedi'i drefnu. Mae tir y cartref yn cael ei gadw'n daclus ac mae modd i'r bobl ei ddefnyddio'n ddiogel. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli yn unol â chwaeth yr unigolyn. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau buddiol a gwerthfawr wedi'u trefnu i'r bobl gymryd rhan ynddynt. Dywedodd y bobl wrthym fod digon o amrywiaeth a dewis o ran y bwyd.

Mae'r bobl yn ddiogel ac mae'r staff yn deall pwysigrwydd diogelu a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae'r adeilad yn ddiogel a chaiff pob mynedfa ac allanfa eu cadw ar glo, ac mae larwm wedi'i osod ar yr adeilad. Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau da ar waith ac mae pob rhan o'r cartref yn lân ac yn drefnus. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n gyson â'r 'Cynnig Rhagweithiol' a gofynion o ran yr iaith Gymraeg.

## Llesiant

Mae'r arferion a'r prosesau yn y gwasanaeth yn helpu i sicrhau llesiant corfforol ac emosiynol gorau posibl y bobl. Mae'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn ymroddedig ac yn awyddus i ddarparu canlyniadau da i'r bobl ac i sicrhau gofal a chymorth o ansawdd uchel. Gwelsom dystiolaeth dda fod y bobl yn gwneud cynnydd cadarnhaol mewn perthynas â'u llesiant a'u hiechyd. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y cymorth a ddarperir a dull gofalgar y staff. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y trefniadau iddynt gyfathrebu â'r gwasanaeth a'r trefniadau cyfathrebu gan y gwasanaeth yn dda iawn. Gwelsom ryngweithio hynod gadarnhaol rhwng y staff a'r bobl drwy gydol yr arolygiad. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn rhoi arweiniad clir i'r staff er mwyn iddynt ddeall eu rôl a sut y dylent ddarparu gofal a chymorth. Mae'r datganiad o ddiben cyfredol yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae prosesau da ar waith ar gyfer asesu, monitro ac adolygu anghenion gofal a chymorth y bobl. Caiff y gweithwyr gofal hyfforddiant craidd a hyfforddiant arbenigol. Caiff y gweithwyr gofal sesiynau goruchwylio wedi'u cynllunio yn rheolaidd ac mae cymorth a chyngor da ar gael iddynt pan fydd eu hangen arnynt. Mae'r staff yn ymgynghori â'r bobl ynghylch yr hyn sy'n well ganddynt, eu dewisiadau a'u hanghenion cymorth. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r 'cynnig rhagweithiol' mewn perthynas â hybu'r Gymraeg wrth ddarparu'r gwasanaeth.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd mewnol ac allanol diogel o safon uchel. Mae'r darparwr yn parhau i annog buddsoddiad mewn newidiadau amgylcheddol buddiol pellach. Caiff y bobl gyfleoedd i ddefnyddio tir y cartref, sy'n braf ac sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae pob un o fynedfeydd ac allanfeydd y gwasanaeth yn ddiogel. Gwnaeth y bobl ganmol safon a dewis y bwyd a ddarperir, a chaiff anghenion deietegol gwahanol eu diwallu. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch amgylcheddol cadarn yn cael eu cwblhau. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau strwythuredig a gweithgareddau wedi'u cynllunio ar gael i'r bobl yn y cartref a thu allan i'r cartref. Mae'r staff yn ymgynghori â'r bobl ynghylch yr hyn sy'n well ganddynt, eu dewisiadau a'u hanghenion cymorth.

Mae trefniadau goruchwylio a llywodraethu cadarn iawn ar waith yn y gwasanaeth. Mae'r tîm rheoli, yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr rhanbarthol yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Mae prosesau sicrhau ansawdd cadarn iawn ar waith gan gynnwys gwaith craffu allanol rheolaidd a wneir gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr rhanbarthol. Caiff cyfarfodydd staff a phreswylwyr eu cynllunio a'u cynnal a chaiff camau gweithredu eu dogfennu'n glir fel y bo'n briodol. Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel a chaiff gwiriadau cyflogaeth gorfodol eu cwblhau fel mater o drefn.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff profiadol, ymroddedig sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Gwnaethom siarad â phedwar person, perthynas a ffrind, a chawsom sylwadau cadarnhaol iawn am y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Dywedodd un person wrthym; *“very good staff here, very polite and respectful, all staff are lovely”.* Dywedodd person arall; *“marvellous here the staff are excellent – polite, respectful … everyone has been very nice”*. Dywedodd ffrind wrthym; *“I think it’s brilliant here and the staff are really good. Our friend is well looked after, no complaints or worries. Very good”.* Hefyd gwnaethom siarad â gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref a ddywedodd; *“I visit daily, welcoming, clean, friendly – good contact and communication. They are really good and will often ask us our opinion about matters when we are here which is really good. No concerns whatsoever about standards of care”.* Gwelsom ryngweithio cefnogol, cynnes a chyfeillgar rhwng y staff a'r bobl drwy gydol yr arolygiad. Gwnaethom siarad â gweithwyr gofal a gwelsom dystiolaeth ddogfennol o hyfforddiant staff arbenigol a chraidd. Mae'r hyfforddiant staff a ddarperir yn cynnwys; dementia, diogelwch tân, rheoli heintiau, diogelu. Gwelsom lefelau da o gydymffurfiaeth o ran hyfforddiant gan bob aelod o staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae pob gweithiwr gofal wrthi'n cofrestru neu wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol). Mae'r gweithwyr gofal naill ai wedi cwblhau Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF) ym maes gofal ar y lefel briodol, neu maent yn gweithio tuag at hynny.

Mae'r lefelau staffio yn gyson â datganiad o ddiben y gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr wrthym fod gweithwyr gofal newydd wedi cael eu recriwtio'n ddiweddar ac er bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio o hyd, bod y ddibyniaeth ar drefniadau o'r fath yn lleihau. Mae'r darparwr yn defnyddio system ar gyfer sicrhau bod y lefelau staffio yn gyson ag anghenion y bobl  a gwelsom adroddiadau manwl yn dogfennu hyn. Mae amrywiaeth o weithgareddau ysgogol a buddiol ar gael i'r bobl yn y gwasanaeth a'r tu allan iddo. Mae dau gydgysylltydd gweithgareddau penodedig yn gweithio yn y gwasanaeth. Gwelsom fod amrywiaeth dda o weithgareddau yn cael eu trefnu y gall y bobl gymryd rhan ynddynt. Mae mwy o weithgareddau allanol wedi cael eu cynllunio dros y misoedd nesaf.

Caiff anghenion gofal a chymorth y bobl eu dogfennu'n glir mewn cynlluniau cymorth manwl a thrylwyr sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae gan y rheolwyr a'r gweithwyr gofal wybodaeth dda am anghenion gofal parhaus y bobl. Roedd sampl o'r cynlluniau personol a welwyd yn cynnwys gwybodaeth fanwl am hoff bethau a chas bethau'r bobl, ac yn hybu annibyniaeth. Mae gwybodaeth gynhwysfawr ar gael am anghenion gofal iechyd megis diabetes a gofalu am friwiau pwyso, yn ogystal ag asesiadau risg sy'n benodol i'r person.

Gwelsom gofnodion trylwyr yn dogfennu'r cyswllt â gweithwyr iechyd proffesiynol allanol pan fo angen. Gwelsom ddogfennau yn dangos fod y bobl yn gwneud cynnydd da gan gynnwys magu pwysau a gwella eu deiet. Mae gweithdrefnau cyn derbyn trylwyr a chadarn ar waith gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer asesu a throsglwyddo unigolion a rhestrau gwirio ar gyfer pobl newydd. Mae trefniadau trosglwyddo gofal dyddiol ar waith. Caiff cyfarfodydd eu trefnu'n rheolaidd i'r preswylwyr a gwnaethom siarad â'r bobl am eu cyfraniad yn y cyfarfodydd hyn, gan gael gwybod eu bod yn eu gwerthfawrogi. Gwnaethom gwblhau archwiliad o weithdrefnau meddyginiaeth yn y gwasanaeth a gwelsom fod prosesau cadarn a thrylwyr ar waith o ran storio, rhoi ac archebu meddyginiaethau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd mewnol ac allanol sydd mewn cyflwr da, yn gartrefol, yn ddiogel ac o safon uchel. Gwelsom bob ardal gymunedol yn y gwasanaeth, gan gynnwys y lolfa ar y ddau lawr, yr ystafell fwyta, yr ystafelloedd ymolchi, y gegin a'r ystafell golchi dillad. Nodwyd gennym fod angen gwneud mân atgyweiriadau yn y ddwy ystafell ymolchi. Cafodd y gwaith hwnnw ei gwblhau yn ystod yr arolygiad. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y person a oedd yn gyfrifol am waith cynnal a chadw wedi gadael ychydig fisoedd yn ôl a bod gweithiwr a chynorthwywydd cynnal a chadw wedi cael eu recriwtio'n ddiweddar a fyddai'n dechrau'n fuan. Mae'r darparwr wedi sicrhau y gellir cael gafael ar gymorth yn y cyfamser gan staff cynnal a chadw o wasanaethau cysylltiedig eraill sy'n ymweld yn rheolaidd. Gwelsom fod pob ardal gymunedol yn y gwasanaeth yn lân, yn daclus ac wedi'i chyflwyno'n dda. Dywedodd y rheolwr wrthym am y gwaith diweddaru a wnaed ers yr arolygiad diwethaf gan gynnwys lloriau newydd yn y coridorau, estyn yr ystafell fwyta bresennol a lefelu ardal patio allanol. Bwriedir gwneud gwaith diweddaru hefyd i'r ystafelloedd ymolchi cymunedol yn y dyfodol. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o ystafelloedd gwely a gwelsom eu bod wedi'u personoli, yn lân ac wedi'u haddurno'n dda. Mae'r gegin o safon uchel iawn ac mae ganddi sgôr hylendid bwyd o bump (Yr Asiantaeth Safonau Bwyd) sef y sgôr uchaf posibl. Mae hyn yn golygu bod safonau uchel ar waith ar gyfer storio bwyd, trin bwyd a glendid. Mae gan staff y gegin wybodaeth dda am anghenion deietegol y bobl gan gynnwys anghenion arbenigol megis preswylwyr â diabetes neu anawsterau llyncu bwyd. Dywedodd pob un o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau'r amrywiaeth o brydau bwyd a'r dewis a gynigir. Gwelsom fod mesurau rheoli heintiau a mesurau glendid da yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac mae prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod gwiriadau yn cael eu cwblhau a'u dogfennu. Mae tystysgrifau diogelwch ar gyfer gosodiadau nwy, tystysgrif diogelwch trydanol, profion gweithredu'r lifft, larymau tân, teclynnau codi a slingiau, a phrofion dyfeisiau cludadwy (PAT) ar waith ac yn gyfredol. Gwelsom ffeil gynhwysfawr yn cynnwys trosolwg wedi'i ddogfennu o'r holl waith cynnal a chadw, damweiniau, prosesau rheoli heintiau a materion iechyd a diogelwch yn y cartref. Gwelsom fod cynhyrchion glanhau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn briodol ac yn unol â rheoliadau rheoli sylweddau peryglus i iechyd (2002). Mae ystafell golchi dillad bwrpasol fawr, a chedwir eitemau brwnt ar wahân i eitemau glân yn unol â mesurau rheoli heintiau da. Caiff y larymau tân eu gwirio'n rheolaidd a chaiff y gwiriadau hyn eu dogfennu'n briodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau goruchwylio a llywodraethu cadarn a thrylwyr iawn ar waith yn y gwasanaeth. Mae tîm rheoli dynodedig a chafodd dirprwy reolwr newydd ei benodi'n ddiweddar. Caiff hyn ei ategu gan waith craffu allanol a chymorth gan reolwr rhanbarthol a'r Unigolyn Cyfrifol. Gwnaethom siarad â thri aelod o'r staff a chawsom holiaduron adborth gan bump aelod o'r staff. Mae'r holl adborth a gasglwyd yn canmol y cymorth sydd ar gael gan y rheolwyr yn fawr. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym; *"A good place to work any problems or issues management sort quickly and efficiently. A friendly and happy place".* Mae cyfleoedd i wneud cynnydd ac mae llawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wedi cael dyrchafiad i rolau uwch yn y gwasanaeth. Dywedodd llawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi dychwelyd i weithio yn y gwasanaeth ar ôl cyfnod o weithio mewn swydd allanol arall. Mae'r datganiad o ddiben presennol yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Gwnaethom ddarllen adroddiadau, megis yr adolygiadau o ansawdd y gofal, sy'n trafod meysydd megis ymgynghori â'r bobl, staff, gwella ansawdd, diogelu ac adeiladau ac ystafelloedd, ac sy'n cynnwys camau gweithredu cysylltiedig clir. Mae cofnodion ysgrifenedig o ymweliadau rheolaidd gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr rhanbarthol. Gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol rhwng y rheolwyr a'r staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref.

Mae gan y darparwr drefniadau goruchwyliaeth ariannol da ar waith ac mae'n parhau i fuddsoddi mewn gwelliannau. Mae lefelau deiliadaeth y gwasanaeth wedi cynyddu a dywedodd y rheolwr wrthym fod menter wedi bod ar waith i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth yn y gymuned.

Mae'r staff yn cael lefel uchel o gymorth gan y rheolwyr a'u cydweithwyr i'w galluogi i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i'r bobl. Caiff cofnodion y staff eu cadw mewn cabinet ffeilio dan glo mewn swyddfa. Mae'r cofnodion yn dangos bod aelodau newydd o'r staff gofal yn cael cyfnod sefydlu trylwyr sy'n gyson â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF). Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth recriwtio briodol a thystiolaeth bod gwiriadau wedi cael eu cynnal gan gynnwys tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae lefelau cydymffurfiaeth da o ran cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarnu i'r staff. Cynhelir cyfarfodydd staff a chyfarfodydd rheoli rheolaidd a chaiff y cyfarfodydd hyn eu dogfennu. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ar gael i arwain y staff. Gwnaethom edrych ar amrywiaeth ohonynt, gan gynnwys y polisi cwyno, y polisi diogelu a'r polisi chwythu'r chwiban. Mae pob un ohonynt yn glir, yn gyfredol ac yn drylwyr er mwyn sicrhau bod gan y staff ganllawiau da wrth gwblhau eu tasgau gwaith.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/05/2023